Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council
Yr Uned Rheoli Adeiladu, Ty Parcyrhun, Ffordd Y Rhyd, Rhydaman, SA18 3FB
Building Control Team, Ty Parcyrhun, Ffordd Y Rhyd, Ammanford, SA18 3FB
rheolaeth.adeiladu@sirgar.gov.uk
building.control@carmarthenshire.gov.uk
sirgar.llyw.cymru/rheoliadeiladu carmarthenshire.gov.wales/buildingcontrol



Rheoli Adeiladu Adnewyddu Elfen Thermol Hysbysaid Adeiladu Ffurlen Gais (Cymru) ar gyfer gwaith adeiladu nad yw'n risg uwch

Deddf Adeiladu 1984, Deddf Diogelwch Adeiladau 2022, Rheoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd)

1. Manylion y person sy'n bwriadu gwneud y gwaith *(Y person/cwmni a fydd yn ymgymryd â'r gwaith adeiladu yn gorfforol)*

Enw:	
Cyfeiriad & Chôd post:	
Rhif ffôn:	
Ebost:	

2. Manylion y cleient *(Deiliad dyletswydd cyfreithiol ar gyfer cydymffurfiaeth - Y person neu'r sefydliad sy'n comisiynu'r gwaith adeiladu*

Enw:	
Cyfeiriad & Chôd post:	
Rhif ffôn:	
Ebost:	

3. Manylion y prif gontractwr / Unig gontractwr *(Y contractwr sy'n rheoli'r cam adeiladu yn gyffredinol)*

Enw:	
Cyfeiriad & Chôd post:	
Rhif ffôn:	
Ebost:	

4. Manylion y prif ddylunydd / Unig ddylunydd neu ddylunydd arweiniol *(Y sawl sy'n gyfrifol am baratoi'r dyluniad)*

Enw:	
Cyfeiriad & Chôd post:	
Rhif ffôn:	
Ebost:	

5. Manylion yr asiant *(Person sy'n gweithredu ar ran y cleient i gyflwyno'r cais)*

Enw:	
Cyfeiriad & Chôd post:	
Rhif ffôn:	
Ebost:	

6. Cyfeiriad yr eiddo y mae'r cais hwn yn berthnasol iddo/iddynt



7. Y Gwaith a Fwriedir – dileer fel y bo'n briodol

Adnewyddu'r To / Wal(iau) / Llawr(lloriau)

8. Ffioedd yn Daladwy

Adnewyddu elfenthermol i un breswylfa, yn cynnwys TAW ar gyfradd @ 20% **£ 220.00**

Mae'r ffioedd hyn am osod deunydd inswleiddio ychwanegol yn sgil gwneud gwaith adnewyddu e.e. cyfnewid gorchuddion toeon am ddeunyddiau tebyg. Os bydd angen gwneud unrhyw waith adeiladu arall er mwyn hwyluso'r gwaith adnewyddu, codir ffioedd eraill am wneud hynny. Cysylltwch Ã'r Tim Rheoli Adeiladu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.

I wneud taliad cerdyn dros y ffôn, cysylltwch â'n Harianwyr a nodwch fod y taliad ar gyfer cais Rheoli Adeiladu ar 01267 228686

9. Datganiad

Caiff y cais hwn ei adneuo mewn perthynas â'r gwaith adeiladu ac ati, fel y disgrifir uchod. Caiff ei gyflwyno yn unol â Rheoliad 12(2)(a) ynghyd â'r tâl priodol

Rwyf fi / rydym ni'n gwneud cais am Dderbyn Hysbysiad Adeiladu fel y disgrifir ar y ffurflen hon ac fel y manylir ar unrhyw ddogfennau atodol

Llofnod:
Ar ran:

rhowch enw'r cleient lle gwneir y datganiad gan asiant

Dyddiad

10. Dychwelyd y Cais wedi'i Gwblhau

Dychweler erbyn:
E-bost: rheolaeth.adeiladu@sirgar.gov.uk
Post: Tîm Rheoli Adeiladu, Cyngor Sir Caerfyrddin, Tŷ Parc-yr-hun, Ffordd y Rhyd, Rhydaman, SA18 3FB

Mae'r defnydd o hysbysiad adeiladu i hysbysu'r awdurdod rheoli adeiladu am waith adeiladu ac ati, wedi'i gyfyngu i fathau penodol o adeiladau. Bydd angen gwybodaeth ychwanegol hefyd i gyd-fynd â'ch hysbysiad adeiladu yn dibynnu ar y gwaith y bwriedir ei wneud. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y nodiadau a'r rhestr wirio sy'n atodedig.

Ni ellir defnyddio'r ffurflen hon ar gyfer ceisiadau am gymeradwyaeth rheoli adeiladu sy'n ymwneud â gwaith adeiladu risg uwch, cam o waith adeiladu risg uwch, nac â gwaith ar adeiladau risg uwch presennol.

LABC CYMRU



Nodiadau

[Gwaith dylunio ac adeiladu: bodloni gofynion adeiladu | LLYW. CYMRU
Rhan 2B (deiliaid dyletswydd a chymhwysedd) y Rheoliadau hyn]

Gall rolau 1-5 isod orgyffwrdd ond rhaid eu nodi'n glir o hyd.

1. **Manylion y person sy'n bwriadu gwneud y gwaith -** Y person neu'r cwmni a fydd yn ymgymryd â'r gwaith adeiladu yn gorfforol. Fel arfer yr adeiladwr / contractwr ar y safle.

2. **Manylion y cleient** - Y person neu'r sefydliad sy'n comisiynu'r gwaith adeiladu. Mae'n meddu ar y cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau cydymffurfiaeth.

3. **Manylion y prif gontractwr / Unig gontractwr -** Y contractwr sy'n rheoli'r cam adeiladu yn gyffredinol. Y person a benodwyd i **gynllunio, rheoli a chydlynu'r** cam adeiladu

4. **Manylion y prif ddylunydd / Unig ddylunydd neu ddylunydd arweiniol** - Sy'n gyfrifol am gynllunio, rheoli, a chydlynu'r gwaith dylunio. Mae'n sicrhau iechyd, diogelwch, a chydymffurfiaeth reoleiddiol wrth ddylunio.

5. **Manylion yr asiant -** Person sy'n gweithredu ar ran y cleient i gyflwyno'r cais. Gall fod yn Bensaer neu'n ymgynghorydd sy'n cyflwyno'r cais.

6. **Cyfeiriad yr eiddo y mae'r cais hwn yn berthnasol iddo/iddynt** - Cyfeiriad post llawn y lleoliad lle mae'r gwaith adeiladu i'w wneud, gan gynnwys y côd post. Os oes mwy nag un eiddo, mae angen cyfeiriadau post llawn pob eiddo sydd wedi'i gynnwys yn y cais hwn.

7. **Y gwaith arfaethedig** - Rhowch ddisgrifiad clir o'r gwaith adeiladu arfaethedig. Os ydych chi'n ymgymryd â mwy nag un elfen thermol, rhowch fanylion.

8. **Ffioedd yn Daladwy** – Mae'r ffi safonol ar gyfer un eiddo wedi'i ychwanegu at y ffurflen gais – os ydych chi'n gwneud gwaith ar fwy nag un eiddo, cysylltwch â Rheoli Adeiladu ar **01267 246044** neu rheolaeth.adeiladu@sirgar.gov.uk

9. **Datganiad** - Mae'r datganiad yn cadarnhau bod y wybodaeth a ddarperir yn gywir a bod yr ymgeisydd wedi'i awdurdodi i weithredu ar ran y cleient. Mae'r cleient yn cadarnhau ei fod yn cytuno â'r cais ac yn deall ei gyfrifoldebau o dan y Rheoliadau Adeiladu. Gellir darparu llofnodion yn electronig.

Adnewyddu Elfen Thermol

Ystyr elfen thermol yw to, wal neu lawr sy'n gwahanu man a reolir yn thermol (wedi'i wresogi neu ei oeri) oddi wrth unrhyw un o'r canlynol:

- Y tu allan (gan gynnwys y ddaear) neu
- Ran o'r un adeilad nad yw wedi ei gwresogi, neu
- Strwythur wedi ei eithrio o'r rheoliadau adeiladu megis portsh neu lolfa haul, neu
- Ran o'r un adeilad sydd wedi'i gwresogi neu ei hoeri i dymheredd gwahanol

Ystyr Adnewyddu Elfen Thermol yw ychwanegu haen newydd at Elfen Thermol neu osod haen newydd yn lle'r un bresennol. Pan fo'r adnewyddu'n cael ei wneud i fwy na 50% o arwyneb yr elfen unigol neu 25% o gyfanswm cragen yr adeilad, bydd angen cael caniatâd Rheoliadau Adeiladu cyn cyflawni'r gwaith ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid gwneud gwelliannau i'r Elfen Thermol er mwyn darparu rhagor o ddeunydd inswleiddio.



Wrth asesu maint yr ardal hon, dylid ystyried yr elfen unigol ac nid yr holl elfennau o'r math hwnnw yn yr adeilad. Wrth ddehongli maint yr elfen, dylid ystyried a yw'r elfen yn cael ei hadnewyddu o'r tu mewn neu o'r tu allan e.e. os yw'r holl blastr yn cael ei waredu o'r tu mewn i wal frics solet, maint yr elfen yw maint y wal allanol yn yr ystafell. Os yw'r rendr allanol yn cael ei waredu, y maint yw'r ochr lle mae'r wal honno.

Effaith y newid hwn y gall fod angen caniatâd bellach ar gyfer llawer o waith adeiladu a oedd cyn hynny wedi ei eithrio o'r Rheoliadau Adeiladu am ei fod yn cael ei ystyried yn atgyweirio. Er enghraifft:

- Gosod to llechi neu deils o'r newydd - hyd yn oed os ydych yn defnyddio'r un deunydd!
- Ail-blastro wal
- Gosod ffelt o'r newydd ar do gwastad
- Adnewyddu'r nenfwd islaw atig oer
- Rendro allanol neu ailrendro wal
- Adnewyddu deunydd cladio dormer
- Adnewyddu'r llawr gwaelod gan gynnwys gosod sgrîd neu lawr estyll newydd